


Angle

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 3.7 milltir (6.0 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Angle 366, Coastal Cruiser

CYMERIAD: Llwybr Arfordir garw, 1.2 km o gerdded ar y ffordd, gweddol wastad, caeau a da byw

CHWILIWCH AM: Tŵr Angle • Eglwys Canoloesol • Caer Bae'r Capel • patrwm cae stribed
Canoloesol creiriol • golygfeydd o ddyfrffordd brysus y Daugleddau

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- — — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- — — — — Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileddau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



Angle

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Pellter: 3.7 milltir, 6.0 km

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Angle 366, Coastal Cruiser.

Cyfeirnod map: SM865026

Mae yna lond lle o rywogaethau i'w gweld ar hyd penrhyn gwyllt Angle.

Chwiliwch am: Tŵr Angle, Eglwys Canoloesol, Caer Bae'r Capel, patrwm cae stribed Canoloesol creiriol, golygfeydd o ddyfrffordd brysur y Daugleddau.

Mae penrhyn bach Angle yn wyllt ac yn arw, gyda'r hen dywodfaen coch wedi'i droi a'i dreulio i mewn i glystyrau bach gan y gwyntoedd. Traeth Gorllewin Angle yw dechrau dyfrffordd yr Daugleddau ac felly mae'n cymryd y gwaethaf o'r tywydd. Mae yna byllau glan môr da yma ac mae'r bae yn gartref i'r seren fôr glustog brin.

Ar ochr arall y penrhyn, mae Bae Angle ei hun yn anialwch o fwd a thywod pan fydd y llanw allan ac mae'n le i anifeiliaid di-asgwrn-cefn fridio ac yn gyfoeth o fwyd i ddeifwyr, rhydwyr ac adar gwyllt. Mae adar fel pibyddion y mawn, cornicyllod a phibyddion coesgoch yn gyffredin gyda phiod y môr a'r gylfinir yn ymweld yn ystod y tymor bwrw plu. Yng Nghors Kilpaison gerllaw, mae Teloriaid Cetti yn y gwelyau rhedyn a'r prysg.

Ar y pentir, gellir gweld olion patrwm hynafol, canoloesol o gae stribed. Mae Caer Bae'r Capel ac Ynys Thorn yn amddiffynfeydd o Oes Fictoria sy'n amddiffyn y ddyfrffordd, ac mae yna olygfeydd gwych dros y Daugleddau yma. Ond byddwch yn ofalus - mae'r Gaer wedi ei chuddio gan goed a phrysg ac mae yna rai ffosydd dwfn. Chwarelwyd ambell frigiad o garreg galch ac fe'u proseswyd yn yr odyn galch sy'n edrych allan dros Fae Gorllewin Angle.

Cymeriad: Llwybr Arfordir garw, 0.7 milltir (1.2 km) o gerdded ar y ffordd, gweddol wastad, caeau a da byw.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

